# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2023**

**TGAU**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 1**
**3570NB0-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**CYFLWYNIAD**

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**CBAC TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2023**

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | *Mae Mark yn 15 oed.*<br><br>*Ticiwch (✓) **un** blwch sy'n dangos cam bywyd Mark.*<br><br>Rhowch **1 marc** ar gyfer y cam bywyd cywir:<br><br>Llencyndod | 1 | | | 1 |
| 2. | (a) | *Mae Georgia yn mynd â James, ei baban 15 mis oed, i'r clinig babanod ar gyfer ei archwiliad. Mae'r ymwelydd iechyd yn pwyso James.*<br><br>*Nodwch pa faes datblygiad James mae'r ymwelydd iechyd yn ei archwilio.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ateb cywir:<br><br>Datblygiad corfforol<br><br>Derbyniwch unrhyw ateb rhesymol arall. | 1 | | | 1 |
| | (b)<br><br><br><br>(i) | *Mae'r ymwelydd iechyd yn cofnodi pwysau James ar siart canraddol.*<br><br>*Defnyddiwch y siart canraddol gyferbyn i ateb y cwestiynau canlynol:*<br>*Nodwch beth oedd pwysau James pan gafodd ei eni.*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi'r canlynol yn gywir:<br><br>7/8lb neu 3.2 – 3.7kg | 1 | | | 1 |
| | (ii) | *Nodwch beth yw pwysau James ar hyn o bryd.*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi'n gywir bwysau James ar hyn o bryd:<br><br>22/23lb neu 10 – 10.4kg | 1 | | | 1 |
| | (iii) | *Disgrifiwch batrwm datblygiad James.*<br><br>Rhowch **2 farc** am bob ateb cywir.<br><br>Mae datblygiad James ar y 50fed canradd – mae o ar y canolrif neu'r cyfartaledd, sy'n 'normal' ar gyfer ei oedran. | 2 | | | 2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (iv) | *Awgrymwch **un** rheswm dros y cofnod pwysau mwyaf cyfredol.*<br><br>Rhowch **1 marc** am yr ateb cywir.<br>Archwiliad datblygiadol 15 mis<br><br>Caniatewch atebion sy'n cyfeirio at fagu pwysau, cael ei fwydo'n dda. | 1 | | | 1 |
| 3. | | ***<u>Tanlinellwch</u>*** *y term cywir i gwblhau'r frawddeg isod: Enw'r cyfnod yn ystod oedolaeth ganol pan fydd cylchred gwaedu misol menyw yn stopio yw **mislif / menopos**.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ateb cywir:<br><br>Menopos | 1 | | | 1 |
| 4. | (a)<br><br>(i, ii, iii) | *Nodwch **un** nodwedd wahanol ar gyfer pob math o berthynas:*<br><br>Rhowch **1 marc** am un ymateb cywir ar gyfer pob math o berthynas a ddangosir:<br><br>**Agos, personol a rhywiol** – Cariad, ymddiriedaeth, agosrwydd, gonestrwydd, rhoi cefnogaeth i'w gilydd, rhoi sicrwydd, rhoi symbyliad, gwneud i'w gilydd deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br><br>**Gwaith** – Ffurfiol/proffesiynol, cydweithredu/gwaith tîm, parch, dibynadwyedd, gonestrwydd, ymddiriedaeth, cefnogaeth<br><br>**Ffrindiau** – Ymddiriedaeth, rhannu, gonestrwydd, rhoi cefnogaeth i'w gilydd, rhoi sicrwydd, rhoi symbyliad, gwneud i'w gilydd deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, teyrngarwch, gofal, cefnogaeth gymdeithasol.<br><br>Derbyniwch unrhyw ateb rhesymol arall. | 3<br><br>[1,1,1] | | | 3 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (b) | *Disgrifiwch y patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am ddisgrifiad o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn.<br><br>Gall yr atebion tebygol gynnwys y canlynol:<br>• mae plant yn meithrin sgiliau iaith yn gyflym iawn rhwng 0–5 oed<br>• gellir rhannu iaith yn ddwy ran; cyfathrebu di-eiriau a chyfathrebu geiriol<br>• pan fydd plentyn yn cael ei eni, gall gyfleu ei anghenion trwy grio a mynegiant wyneb<br>• mae plant yn dechrau cyfathrebu ar lafar trwy glebran baban ac yna trwy ddefnyddio un neu ddau air – yna maent yn dechrau cysylltu dau air gyda'i gilydd, ac yna tri, ac yna frawddegau cyfan.<br>• pan fydd plentyn yn ddwy, bydd ganddo ychydig gannoedd o eiriau, bydd hyn yn cynyddu'n gyflym<br>• mae cyflymder datblygu geirfa plentyn yn dibynnu ar faint o iaith lafar mae'n ei glywed<br>• erbyn tua chwech oed, mae gan blentyn eirfa o tua 10,000 o eiriau – erbyn wyth bydd plentyn yn gallu cynnal sgyrsiau tebyg i oedolion.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ddisgrifiad rhesymol arall o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn. | 6 | | | 6 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (c) | *Mae Fred yn 6 oed. Mae rhieni Fred yn deall bod cysylltiad agos rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl.* | | | | |
| | (i) | *Esboniwch y manteision i iechyd corfforol a iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am esboniad manwl o'r manteision i iechyd corfforol a iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio.<br><br>**Manteision o ran iechyd corfforol**<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• Gwella ei ffitrwydd<br>• Magu calon ac esgyrn cryfach a chyhyrau iachach<br>• Annog twf a datblygiad iach.<br>• Gwella sgiliau echddygol bras<br>• Rheoli ei bwysau yn well<br>• Bod â llai o fraster ar ei gorff wrth iddo dyfu<br>• Bod â siawns is o gael diabetes math 2 neu salwch cronig arall<br>• Gwella cwsg<br>• Lleihau salwch, gwell system imiwnedd<br>• Diogelwch ffisegol/llai o risg o foddi | | 5 | | 5 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio'r manteision i iechyd corfforol Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i iechyd corfforol Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i iechyd corfforol Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marciau neu ni wnaed ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (ii) | *Esboniwch y manteision i iechyd corfforol a iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am esboniad manwl o'r manteision i iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio.<br><br>**Manteision iechyd meddwl**.<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• Gwella hunan-barch.<br>• Gwella ei hunanhyder<br>• Rhoi cyfle i gymdeithasu ac felly mwy o gyfathrebu<br>• Helpu i gynyddu canolbwyntio/gwella sgorau academaidd.<br>• Ei helpu i gael gwell agwedd ar fywyd<br>• Mae'n rhyddhau endorffinau sy'n arwain at well hwyliau/teimlo'n hapus<br>• Mwy o bositifrwydd sy'n arwain at feddylfryd twf<br>• Lleihau teimladau o orbryder/straen/iselder | | 5 | | 5 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio'r manteision i iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i iechyd meddwl Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i iechyd corfforol Fred os yw'n cael gwersi nofio. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) | *Mae Katie yn 12 oed ac yn mynd drwy'r glasoed.*<br><br>*Dadansoddwch beth yw effaith y glasoed ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol Katie.*<br><br>Rhowch hyd at **8 marc** am ddadansoddiad clir o sut gallai'r glasoed effeithio ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol Katie.<br><br>*Gallai'r atebion gyfeirio at:*<br><br>**Datblygiad corfforol**<br>tyfu'n sydyn; bronnau; mislif; cluniau'n mynd yn fwy llydan; smotiau, croen/gwallt seimlyd; organau atgenhedlu yn cynyddu mewn maint; blew piwbig/blew o dan freichiau; newidiadau hormonaidd.<br><br>**Datblygiad emosiynol**<br>bod yn orbryderus; hunan-barch uchel/isel; newid mewn hwyliau; dig; dan straen; ansicrwydd; atyniad i'r rhyw arall neu'r un rhyw, cyffro/embaras/teimladau dryslyd/teimladau cynhyrfus/gofidus.<br><br>Gall y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gyflwyno heriau newydd i bobl ifanc.<br><br>Gyda'r newidiadau maen nhw'n ei chael hi'n anoddach profi ymdeimlad o berthyn i grwpiau cyfoedion a chael eu derbyn. Gall hunan-barch ddod yn fregus a gall newid yn ddyddiol. Mae llawer o bobl ifanc yn eu harddegau yn mynd yn rhy bryderus am eu hymddangosiad corfforol a sut maen nhw'n cael eu gweld a'u derbyn gan eu cyfoedion. Dyma'r amser lle mae delwedd y corff yn rhan hanfodol o hunan-barch person ifanc. Gall pobl ifanc sydd â delwedd wael o'r corff, sy'n credu eu bod yn dew, ddim digon tlws neu ddim yn ddigon cyhyrog, brofi hunan-barch isel. Gall hyn arwain at gyrhaeddiad gwael yn yr ysgol, problemau ymddygiad, profi bwlio, beichiogrwydd yn yr arddegau, ysmygu a defnyddio alcohol a chyffuriau.<br><br>Derbyniwch unrhyw ateb rhesymol arall. | | | 8 | 8 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n cynnwys llunio barn wedi'i rhesymu o sut gallai'r glasoed effeithio ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol Katie. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth o effeithiau posibl ar iechyd corfforol ac emosiynol Katie. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n cynnwys llunio barn o sut gallai'r glasoed effeithio ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol Katie. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth o effeithiau posibl ar iechyd corfforol ac emosiynol Katie. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n cynnwys rhywfaint o lunio barn o sut gallai'r glasoed effeithio ar ddatblygiad corfforol a/neu emosiynol Katie. Mae'r ymateb yn nodi'n glir o leiaf dau effaith posibl ar iechyd corfforol a/neu emosiynol Katie. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o sut gallai'r glasoed effeithio ar ddatblygiad corfforol a/neu emosiynol Katie. Mae'r ymateb yn cynnwys o leiaf un effaith bosibl ar iechyd corfforol a/neu emosiynol Katie neu gall ateb fod yn rhestr o newidiadau a brofwyd yn ystod glasoed. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut byddai cael gwersi ymwybyddiaeth ofalgar yn yr ysgol yn gallu helpu Katie.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **3 marc** am ddisgrifiad manwl o beth yw ystyr ymwybyddiaeth ofalgar.<br><br>Gallai atebion posibl gynnwys y canlynol:<br>• Ei helpu i reoli ei meddyliau a'i theimladau yn well<br>• Gwella ei hiechyd meddwl cyffredinol<br>• Ei helpu i ganolbwyntio ar ei meddyliau a'i theimladau er mwyn cadw mwy o reolaeth arnynt<br>• Mae'n cynyddu ei galluedd meddyliol i ddelio â digwyddiadau niweidiol.<br>• Byddai'n llai tebygol o boeni<br>• Mae'n helpu iddi leddfu straen<br>• Gwella ei chwsg<br>• Mae'n ei helpu i dderbyn ei phrofiad<br><br>Derbyniwch unrhyw ateb perthnasol arall. | 3 | | | 3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (a)<br><br>(i, ii) | *Mae Steffan yn 55 oed ac mae ganddo arthritis.*<br><br>*Nodwch **ddau** wasanaeth iechyd fyddai'n gallu cefnogi Steffan.*<br><br>Rhowch hyd at **1 marc** yr un am unrhyw wasanaeth iechyd allweddol a fyddai'n gallu cefnogi Steffan, hyd at uchafswm o **2 farc**.<br><br>Gallai atebion posibl gynnwys y canlynol:<br>• Fferyllfa<br>• Meddygfa meddyg teulu/canolfan iechyd<br>• Ysbyty<br>• Ffisiotherapi<br>• Therapi galwedigaethol<br>• Gofal yn y gymuned a chwnsela | 2<br>[1,1] | | | 2 |
| | (b) | *Esboniwch sut mae gofal a chymorth gan wasanaethau iechyd yn gallu helpu Steffan i reoli ei gyflwr.*<br><br>Rhowch hyd at **4 marc** am esboniad o sut gall gofal a chymorth gan wasanaethau iechyd helpu Steffan i reoli ei gyflwr.<br><br>Gall ymatebion gyfeirio at y canlynol:<br>• Lleddfu symptomau arthritis<br>• rhoi presgriptiwn am feddyginiaeth/gofal yn y cartref<br>• rhoi gwell dealltwriaeth i'r claf o sut bydd arthritis yn effeithio ar y cymalau a'r cyhyrau<br>• Rhoi cyngor ar sut i reoli'r poen<br>• amrywiaeth o driniaethau gan gynnwys pecynnau iâ a phecynnau gwres i leddfu poen ac ysgogi cylchrediad gwaed<br>• tylino'r corff<br>• rhoi ymarferion a allai helpu i leihau poen arthritis; a/neu i gryfhau'r cyhyrau a'r cymalau a chynyddu'r lefelau ffitrwydd cyffredinol<br>• darparu cyfarpar a/neu addasiadau i'r tŷ<br>• argymell grwpiau cefnogi/cwnsela | | 4 | | 4 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio sut gall gwasanaethau iechyd helpu Steffan i reoli ei gyflwr. Mae'r ymateb yn amlwg yn cysylltu o leiaf dwy ffordd y gall gofal a chymorth gynorthwyo ei gyflwr. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio sut mae gwasanaethau iechyd yn gallu helpu Steffan i reoli ei gyflwr. Mae'r ymateb yn cysylltu o leiaf dwy ffordd y gall gofal a chymorth gynorthwyo ei gyflwr. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut mae gwasanaethau iechyd yn gallu helpu Steffan i reoli ei gyflwr. Mae'r ymateb yn cysylltu o leiaf dwy ffordd y gall gofal a chymorth gynorthwyo ei gyflwr. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau iechyd yn gallu helpu Steffan i reoli ei gyflwr. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | (a)<br><br>(i, ii) | *Mae Patrik a Lena wedi bod yn briod ers blynyddoedd. Erbyn hyn, mae'r ddau wedi ymddeol. Torrodd Patrik ei goes mewn damwain, ac mae yn yr ysbyty yn gwella. Bydd yn cael dod allan o'r ysbyty cyn bo hir.*<br><br>*Nodwch* ***ddau*** *newid corfforol fyddai'n gallu digwydd i Patrik yn ystod oedolaeth ddiweddarach.*<br><br>Rhowch hyd at **1 marc** yr un am hyd at 2 newid corfforol.<br><br>Gallai atebion posibl gynnwys y canlynol:<br><br>• croen yn colli elastigedd<br>• synhwyrau (clywed, gweld) yn dechrau dirywio<br>• y system resbiradol yn llai effeithlon<br>• nid yw amser ymateb mor gyflym<br>• mae'r cyhyrau yn teneuo a chymalau yn dod yn llai symudol<br>• esgyrn gwannach/arthritis<br>• gwallt llwyd/colli gwallt<br>• mae anadlu a chylchrediad yn dod yn llai effeithlon | 2<br>[1,1] | | | 2 |
| | (b)<br><br>(i) | *Nodwch un digwyddiad bywyd annisgwyl mae Patrik wedi ei brofi.*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi'r digwyddiad bywyd annisgwyl:<br><br>Torri ei goes/damwain. | 1 | | | 1 |
| | (ii) | *Esboniwch sut byddai'r digwyddiad bywyd annisgwyl rydych chi wedi'i nodi yn gallu cael effeithiau tymor byr ac effeithiau tymor hir ar lesiant Patrik.*<br><br>Rhowch hyd at 5 farc am esboniad manwl.<br><br>Gallai ymatebion gynnwys:<br><br>Effeithiau tymor byr<br>• Poen corfforol ac anesmwythder – efallai y bydd angen cefnogaeth ar gyfer rheoli poen<br>• Efallai y bydd angen help arno i fod mor symudol â phosibl gyda chefnogaeth gorfforol<br>• Efallai y bydd angen aildrefnu/addasu'r tŷ fel ei bod yn ddiogel iddo symud o gwmpas<br><br>Effeithiau tymor hir<br>• Gallai gael ei ynysu'n gymdeithasol<br>• Efallai y bydd yn rhaid iddo ddysgu ffyrdd newydd o addasu i dasgau bob dydd<br>• Gorbryder/iselder/hunan-barch isel sy'n gysylltiedig â'i amgylchiadau'n newid<br>• anhwylder pryder ôl-drawmatig<br>• gwendid tymor hir ar ôl gwella | | 5 | | 5 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai'r digwyddiad bywyd annisgwyl rydych chi wedi'i nodi yn gallu cael effeithiau tymor byr ac effeithiau tymor hir ar lesiant Patrik. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai'r digwyddiad bywyd annisgwyl rydych chi wedi'i nodi yn gallu cael effeithiau tymor byr a/neu effeithiau tymor hir ar lesiant Patrik. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai'r digwyddiad bywyd annisgwyl rydych chi wedi'i nodi yn gallu cael effeithiau tymor byr a/neu effeithiau tymor hir ar lesiant Patrik. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | (c) | *Esboniwch sut byddai cefnogaeth Lena yn gallu helpu Patrik i wella ar ôl y ddamwain.*<br><br>Rhowch hyd at 6 marc am esboniad manwl.<br><br>Gallai ymatebion gynnwys:<br>• Poen corfforol ac anesmwythder. Cefnogaeth ar gyfer rheoli poen/sicrhau ei fod yn cymryd ei feddyginiaeth<br>• Efallai y bydd angen help arno i fod mor symudol â phosibl gyda chefnogaeth gorfforol<br>• Mae'n dibynnu ar Lena i drefnu'r tŷ fel ei bod yn ddiogel iddo symud o gwmpas<br>• Gallai Lena ei helpu i fod yn fwy egnïol yn gymdeithasol, trwy sicrhau y gall fynd allan o'r tŷ yn ddiogel<br>• Ei helpu i ddysgu ffyrdd newydd o ymdopi â'r anaf ac addasu i'w sefyllfa newydd<br>• Ei helpu gyda thasgau dyddiol/cadw apwyntiadau/cefnogaeth emosiynol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai cefnogaeth Lena yn gallu helpu Patrik i wella ar ôl y ddamwain. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai cefnogaeth Lena yn gallu helpu Patrik i wella ar ôl y ddamwain. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai cefnogaeth Lena yn gallu helpu Patrik i wella ar ôl y ddamwain. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. | (a) | *Mae Dorothy yn 78 oed. Mae hi'n wraig weddw ac yn byw ar ei phen ei hun. Yn ddiweddar, mae hi wedi bod yn teimlo'n ynysig yn gymdeithasol.*<br><br>*Diffiniwch y term 'esgeulustod'.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddiffiniad clir o esgeulustod.<br><br>Gallai atebion posibl gynnwys y canlynol:<br>• Esgeulustod – methu â darparu gofal<br>• Peidio â bod yn ofalgar/diffyg gofal<br>• Methu bodloni anghenion corfforol<br>• Methu â darparu anghenion emosiynol<br>• Enghreifftiau sy'n dangos esgeulustod e.e. gwrthod rhoi bwyd/cariad<br>• Person yn cael ei drin yn annynol<br>• Gadael | 2 | | | 2 |
| | (b) | *Mae Dorothy wedi dewis symud i ofal preswyl. Mae ei gweithiwr gofal yn gyfrifol am roi gwybod i Dorothy am bob agwedd ar ei gofal, ac am annog Dorothy i fod yn bartner gweithredol yn ei gofal.*<br><br>*Esboniwch y manteision i lesiant Dorothy os yw hi'n bartner gweithredol.*<br><br>*Gallai atebion posibl gynnwys y canlynol:*<br><br>Y manteision i lesiant Dorothy os yw hi'n bartner gweithredol:<br>• Llais/dewis/rheolaeth<br>• Bydd hybu cyfathrebu a pherthnasoedd effeithiol yn rhoi gwybodaeth iddi allu seilio ei phenderfyniadau arni. Trwy wneud dewis gwybodus mae hi'n hybu ei hannibyniaeth a'i hurddas a fydd yn gwneud iddi deimlo'n gadarnhaol iawn. Mae gan Dorothy nawr yr hawl unigol i wneud penderfyniadau.<br>• Bydd grymuso yn gwella ansawdd ei bywyd ac felly ei llesiant emosiynol. Bydd yn rhoi cydbwysedd rhwng rheolaeth a chymorth, gan wneud iddi deimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi.<br>• Cydnabod ei chredoau personol a'i hunaniaeth. Bydd hi'n cael ei thrin â pharch a bydd ganddi'r dewis i fod yn wahanol, a thrwy hynny gydnabod ei hamrywiaeth a fydd yn ei dro yn gwella ei hunangysyniad a'i hunan-barch<br>• Ei hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod felly'n llai agored i niwed<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall. | | 5 | | 5 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio'r manteision i lesiant Dorothy os yw hi'n bartner gweithredol.<br>Mae'r ymateb yn esbonio'n drylwyr ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i lesiant Dorothy os yw hi'n bartner gweithredol.<br>Mae'r ymateb yn esbonio'n glir ac yn cynnwys enghreifftiau i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r manteision i lesiant Dorothy os yw hi'n bartner gweithredol.<br>Mae'r ymateb yn esbonio gyda rhywfaint o gyfeirio at enghreifftiau i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | (c) | *Mae Dorothy yn hyderus wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae'n teimlo'n nerfus pan fydd rhaid iddi gyfathrebu yn Saesneg.*<br><br>*Trafodwch sut byddai'r cartref gofal yn gallu defnyddio egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol' er mwyn helpu Dorothy i deimlo'n fwy cyfforddus yn ei hamgylchedd newydd.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am drafodaeth glir ar sut gallai'r cartref gofal ddefnyddio'r 'Cynnig Gweithredol' i helpu Dorothy i deimlo'n fwy cyfforddus yn ei hamgylchedd newydd.<br><br>Gallai'r atebion gyfeirio at:<br>• Ei chyfarch yn ddwyieithog<br>• Gofyn iddi beth yw ei hiaith gyntaf, a'i chofnodi ar ei nodiadau. Mae hyn yn golygu bod pawb yn ymwybodol o'i hanghenion iaith fel bod y Gymraeg yn cael ei siarad heb ofyn<br>• Gwybod pwy sy'n siarad Cymraeg yn y tîm er mwyn iddyn nhw allu gweithio gyda hi<br>• Gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' neu 'fathodyn dysgu Cymraeg'.<br>• Sicrhau bod yr arwyddion yn eu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod yr holl wybodaeth yn ddwyieithog.<br>• Cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau, darllen newyddion, gwylio'r teledu, gwrando ar radio yn Gymraeg<br>• Amgylchedd Cymru e.e. lluniau o Gymru, opsiynau bwyd Cymreig<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | 6 | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Trafodaeth ragorol yn cynnwys llunio barn wedi'i rhesymu ynglŷn â sut byddai’r cartref gofal yn gallu defnyddio egwyddorion y ‘Cynnig Rhagweithiol’ er mwyn helpu Dorothy i deimlo’n fwy cyfforddus yn ei hamgylchedd newydd.<br>Mae'r ateb wedi'i fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Trafodaeth dda yn cynnwys rhywfaint o lunio barn ynglŷn â sut byddai’r cartref gofal yn gallu defnyddio egwyddorion y ‘Cynnig Rhagweithiol’ er mwyn helpu Dorothy i deimlo’n fwy cyfforddus yn ei hamgylchedd newydd.<br>Mae'r ateb wedi'i fynegi'n ddigonol ac mae'n defnyddio terminoleg yn briodol. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o dystiolaeth o sut byddai’r gweithwyr gofal proffesiynol yn y cartref gofal yn gallu defnyddio egwyddorion y ‘Cynnig Rhagweithiol’ er mwyn helpu Dorothy i deimlo’n fwy cyfforddus yn ei hamgylchedd newydd.<br>Mae'r ateb yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. | | *Dadansoddwch sut mae cefnogaeth drwy ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc.*<br><br>Rhowch hyd at **9 marc** am ddadansoddiad manwl o sut mae cefnogaeth drwy ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc.<br><br>Gallai'r atebion gynnwys y dulliau canlynol:<br>• Rhaglenni sgrinio plant fel Cofnod Iechyd Plentyn Personol ('llyfr coch'), clyw babanod newydd-anedig, Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd-anedig Cymru, Cymru Well Wales: Y 1000 Diwrnod Cyntaf (F10000D)<br>• Rhaglenni imiwneiddio ar gyfer babanod a phlant<br>• Gwasanaethau clinig iechyd plant<br>• Mentrau'r llywodraeth fel Dechrau'n Deg<br>• Cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned fel grwpiau chwarae<br><br>Bydd yr atebion yn trafod sut mae'r dulliau hyn o fudd i fabanod a phlant ifanc:<br>• Atal, neu o leiaf oedi, y defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol, a gwasanaethau gofal plant.<br>• Mae dulliau ataliol yn atal lledaeniad/difrifoldeb/tebygolrwydd o ddal clefyd<br>• Mae ymyrryd yn gynnar yn golygu nodi a darparu cefnogaeth gynnar effeithiol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael<br>• Mae ymyrryd yn gynnar yn gweithio i leihau'r ffactorau risg a chynyddu'r ffactorau amddiffynnol ym mywyd plentyn<br>• Mae ymyrraeth gynnar effeithiol yn gweithio i atal problemau ymddygiad rhag digwydd ac i fynd i'r afael â nhw yn uniongyrchol wrth iddynt ddigwydd, cyn i broblemau waethygu.<br>• Mae nodi materion iechyd yn gynnar yn arwain at atgyfeiriadau cynnar/triniaeth lai mewnwthiol a chanlyniadau gwell yn y tymor hir<br>• Mae'n gwella'r siawns o gyrraedd cerrig milltir<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion rhesymol eraill. | | | | 9 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n disgrifio'n glir ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc. | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol yn cynnwys llunio barn wedi'i rhesymu o sut mae cefnogaeth drwy ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb da sy'n disgrifio dulliau atal a/neu ymyrryd yn gynnar sy'n gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc. | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad da yn cynnwys rhywfaint o lunio barn ar sut mae cefnogaeth drwy ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n nodi dulliau ymyrryd a/neu atal yn gynnar ar gyfer babanod a phlant ifanc | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o dystiolaeth o sut mae cefnogaeth drwy ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gallu bod o fantais i fabanod a phlant ifanc. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |



© WJEC CBAC Ltd.